**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1547
Ein cyf HIDCC/02039/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
deisebau@senedd.cymru

18 Tachwedd 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref ynglŷn â chwestiynau pellach yn ymwneud â deiseb sy'n ceisio hyrwyddo gwaharddiad ar offer pysgota sy'n llusgo'r gwaelod.

Rwyf wedi gweld ffilm ddogfen Syr David Attenborough, Ocean, ac yn deall pryder pobl am y mater hwn. Fel y nodais yn fy ymateb dyddiedig 27 Awst, rwy'n falch o allu dweud bod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol iawn i'r hyn a welir yn y ffilm ddogfen.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau ychwanegol, roedd y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) ar gyfer cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y llywodraeth ar gael yma: Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y llywodraeth - GOV.UK (www.gov.uk) Mae'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd yn cynnwys ystod o ymrwymiadau polisi, gan gynnwys adolygiad o reoliadau pysgota.

Mae'r ymgynghoriad dilynol ar fesurau rheoli pysgota cregyn bylchog yng Nghymru, a lansiwyd ar 24 Hydref 2025, yn ymwneud ag ystod o newidiadau arfaethedig i reoli pysgota cregyn bylchog yn dilyn polisïau yn y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd. Efallai y bydd gan y deisebydd ddiddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad: Mesurau rheoli pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru [HTML] | LLYW. CYMRU sy'n cau ar 15 Ionawr 2026.

Mae gan Gymru eisoes bysgodfa cregyn bylchog ar y glannau sy'n cael ei rheoli'n dda ac mae llawer o ardaloedd ar gau er mwyn diogelu cynefinoedd sensitif. Nod y cynigion yn yr ymgynghoriad, a ddatblygwyd gyda chymorth Grŵp Cynghori Cregyn Bylchog Cymru, yw cryfhau'r rheolaethau presennol a'u hymestyn i barth Cymru gyfan, h.y. awdurdodaeth forwrol lawn Cymru. Ar yr un pryd, mae'r cynigion yn ceisio sicrhau rheolaeth addasol o'r bysgodfa fel y gellid amrywio mesurau mewn ymateb i dystiolaeth am y stoc, y bysgodfa neu'r amgylchedd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein pysgodfeydd mor gynaliadwy â phosibl, ac felly mae yna hefyd gynigion a fyddai'n ein helpu i dreialu, a lle bo'n ymarferol weithredu, dulliau pysgota effaith is fel plymio i ddal â llaw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cwmpas yr ymgynghoriad yn cynnwys yr holl bysgota cregyn bylchog wedi'i dargedu, ond nid yw'n ymwneud â'r mathau o offer sy'n llusgo'r gwaelod a ddefnyddir mewn pysgodfeydd eraill, megis treillrwydi dyfnforol sy'n targedu pysgod sy'n trigo ger gwely'r môr.

Yn unol â Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd 2022, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynlluniau Rheoli Pysgota dyfnforol ar y cyd â'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig a allai ystyried mathau eraill o offer sy'n llusgo'r gwaelod. Mae datblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfa Ddyfnforol Môr Iwerddon yn cael ei arwain gan Ogledd Iwerddon ac mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfa Ddyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn cael ei arwain gan Lywodraeth y DU. Bydd ymgynghori ar y Cynlluniau Rheoli Pysgota hyn cyn eu cyhoeddi, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2026.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch ichi am ysgrifennu ataf am y pwnc pwysig hwn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig